# CWLWM




**MAI 2025**

Rhif 73

**Golygydd:**

**Einir Jones**

**Pris 50c**

***<u>Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru</u>***

## ***<u>Cynnwys</u>***


***Golygyddol***

***Brunchclub***

***"Gair oddi wrth Chwiorydd Llundain"***

***"Gadewch i'r plant bach ddod ata' i…"***

***Cerdd y Pasg***

***Dorcas***

***Pryd a Ble?***

***Gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol Mudiad y Chwiorydd***

***Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru yn Newid Safle***

***Cynhadledd Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop 2024***

***Cyfarfodydd Blynyddol y Mudiad***

***ATGYFODIAD***

***Colofn Cwcan; Yr Heol Greigiog (Binc)***

***Adroddiad yr Ysgrifennydd***

***Cynhadledd Lisboa***

***Diweddariad o Glyn Nest***

# Golygyddol

Wel ffrindiau, rwy'n cofio gwrando ar un o'r athrawon yn yr ysgol yn rhoi araith fer ar achlysur dydd olaf y tymor cyn ei ymddeoliad. Doedd e ddim yn 65 cofiwch ac roedd yn cael ei ollwng yn gynnar—roedd pecynnau ymddeoliad da i gael flynyddau yn ôl fel y cofiwch! Meddai yn ei sbïtch olaf :

Ffermwr oedd fy nhad ac roedd ganddo hen geffyl ac un dydd fe benderfynodd fynd â fe allan am dro bach yn tynnu'r cert ysgafn. Roedd yr hen geffyl yn ei elfen. Ond wir i chi, wrth droi yn ôl trwy gât y fferm bu farw'r hen geffyl rhwng y siafftiau. Wnaeth marw felly ddim lot o ddaioni i'r ceffyl. Ond wnaeth marw yn y cenglau rhwng y siafftiau ddim lot o les i'r harness chwaith!

Wrth gyrraedd o fewn golwg i dynnu'r harnes fy hunan rwy'n deall yn iawn! Un rhifyn arall i fi olygu ac i John gysodi ac fe fyddwn yn cael tynnu'r harness tra ei bod yn dal yn deidi a'i gosod yn barod ar gyfer y tynnwr nesaf! Felly unrhyw stwff ar gyfer Medi, gyrrwch yma atom ni erbyn Gorffennaf a dechrau Awst, a phob bendith i'r sawl sydd i'n dilyn.

Cyfeiriad i bobl stampiau:

Carn Ingli,
97 Ffordd y Coleg,
Rhydaman.
Sir Gâr. SA18 2BT

NEU ar y Wê

einir.jones@yahoo.co.uk
jtalfryn@yahoo.co.uk

Rhif y ffôn yw:

01269 592453

Bendithion a mwynhewch ddarllen hwn!

# Brunchclub

### Helen Rees, Rhydaman



Ar ôl ymddeol penderfynais i wirfoddoli a gweithio gyda'r digartref a’r bregus yn ninas Abertawe.

Mae gwahanol Eglwysi yno yn paratoi lluniaeth a gofal pob dydd o'r wythnos i bobl leol sydd eisiau cymorth a charedigrwydd. Yn Eglwys Fair (Y Minster erbyn hyn) sydd heb fod ymhell o’r sgwar gyda’r rhaeadr bychan ynddo, rydyn ni’n cyfarfod ac mae’r rhaglen ddyddiol yn cynnwys darparu pryd da o fwyd gan gynnig dillad a hefyd ddefnyddiau at ymolchi.

Roedd yn gyfnod tua’r dadgloi ddiwedd y pandemic pan ddechreuais wirfoddoli gydag Eglwys Fair. Yn yr amser caled hwnnw roedd yn fwy pwysig nag erioed i gynnig cymorth i’r anghennus ac fe fydden ni’n  paratoi bagau o fwyd i’w rhoi allan i'r rhai oedd mewn angen.

Wrth i'r pandemic ddod i ben daeth y cyfle i groesawu pobol yn ôl i'r eglwys - fel eraill roedd pawb yn falch i gael cwmni eto ar ôl y cyfnod unig, cyfnod fu hyd yn oed yn fwy caled i’r rhai heb gartef na chysgod.

Mae pob dydd yn brofiad gwahanol i ni wirfoddolwyr, ond er hynny mae patrwm i bob dydd.

Ar ôl gwneud y siopa a chyn i'r ddrws agor rydym yn gael cyfarfod i benderfynu pwy yn union sydd yn gwneud beth, ac yna cynnal Gweddi’r Bore. Bob wythnos rydym yn cael un ohonom i weddio neu wrando ar gŵyn neu stori.

Wedi trafod ein rhannau rydym wastod yn brysio i goginio brecwast cyfan a pharatoi te a choffi i'r rhai sydd yn mynychu'r sesiwn. Fel arfer dwi'n cognio wyau ond does dim dal!

Mae'r drws yn agor am 9.00 ac mae'r bore yn brysur bob amser. Fel arfer mae gennym grŵp dda o unigolion ac o bobl yn mynychu. Hyd 11.00 rydym yn brysur iawn yn siarad a helpu. Wedi dweud hynny d'yw rhai ddim am sgwrs o gwbwl ond mae nhw yn falch i ddod mewn o'r stryd i le braf i dreulio awr neu ddwy ac i gael bwyd a diod.

Mae gennym ni rai pobol broffesiynol yn dod i mewn i helpu fel y *Wallich* sydd yn helpu pobl y stryd i gael lle i aros dros nos. Hefyd mae *Alcoholics Anon*ymous yn gymorth mawr.

A pobol o *Cyffuriau UK*.

Mae gennym ni hefyd goeden lle mae unrhyw un yn gallu dodi eu henwau neu weddi bersonol arni. Mae yn rhyfedd faint o bobl mewn angen sydd â rhywfaint o ffydd er eu hamgylchiadau, ac mae yn dda ganddynt i ddeall bod croeso iddyn nhw yn yr eglwys bob amser.

Mae yn bleser mynd i helpu y bobol yma!









# “Gair oddi wrth Chwiorydd Llundain”

Gair gan

Lynne John, Castle Street
(Bethel, Glan-y-Môr, Llanelli gynt)




*Capel Castle Street, Llundain*
*Llun: organrecitals.co.uk*

Ar hyn o bryd, ’rydym yn paratoi’n ddiwyd ar gyfer cyfarfodydd yr Undeb pan fydd ein gweinidog, Y Parchg Rob Nicholls yn esgyn i Lywyddiaeth Undeb Bedyddwyr Cymru. Wrth i mi gydlynu rhai o’r trefniadau eleni, daeth atgofion nôl i mi o Undebau’r gorffennol.

Un o’r atgofion cynharaf oedd Undeb 1969 a gynhaliwyd ym Methel, Glan-y- Môr, Llanelli, pan drosglwyddwyd y llywyddiaeth oddi wrth y Parchg E. Tudno Jones, Cemaes, i Dic Hughes, Penmaenmawr. Dyma’r haf cyn i mi ddechrau astudio yn Llundain, ac wedi fy nghyflwyno i’r Parchg Hugh Matthews yn un o’r cyfarfodydd, trefnodd yntau i mi ddod i Gapel Castle Street ar y Sul cyntaf wrth gyrraedd Llundain.

Ar y pryd, roeddwn yn perthyn i’r grŵp “Ffenestri Lliw”, ac fe berfformion ni yng nghyfarfod yr Ieuenctid. Cofiaf yn glir i ni ganu’r gân, “Heddwch i’r Byd” ar yr alaw, “Puppet on a String”, gyda Huw Tregelles Williams wrth yr organ a David Jones (gweinidog Capel Greenfield, Llanelli) ar y drymiau. Yn yr Undeb hwnnw, roedd cymaint o gynrychiolwyr, bu rhaid eu cludo ar fysys i Ysgol Y Strade ar gyfer y prydiau bwyd. Bues i’n helpu gweini wrth y byrddau a glanhau ar eu holau.

Sawl blwyddyn yn ddiweddarach, yn 1984 (roeddwn bellach yn aelod yn Castle Street), cynhaliwyd yr Undeb yn Rhydwilym pan aeth fy Nhad-yng-nghyfraith, George John yn Llywydd. Cynhaliwyd rhai o'r cyfarfodydd yng Nghapel Blaenconin, gyda'r prydiau bwyd yng ngwesty Nant-y-Ffin, dros y ffordd i'r capel. Ar y nos Sul, adeiladwyd llwyfan yn sedd-fawr Blaenconin, ac fe berfformion ni'r pasiant, "Jerusalem Joy" – wedi'i chyfansoddi a'i chyfarwyddo gan Verina Matthews. Bu rhaid gohirio dechrau'r perfformiad gan fod rhai o ffermwyr yr ardal heb orffen godro mewn pryd!

Cynhaliwyd yr Undeb ym Methel, Llanelli unwaith eto yn 2010 pan aeth Mr Vivian Williams yn Llywydd, ac fel cyn-aelod o Fethel, gofynnwyd i mi gynrychioli Castle Street. Gwnes fy nghorau i gymryd nodiadau er mwyn adrodd nôl wedi'r cyfarfodydd, ond dwi ddim yn credu i mi wneud cystal gwaith â'r annwyl Ogwen Adams, a fu'n gynrychiolydd ffyddlon Castle Street yn yr Undebau dros y blynyddoedd. Cawsom adroddiad cynhwysfawr o holl ddigwyddiadau'r Undeb ganddi yn flynyddol – er roedd rhaid bod yn amyneddgar wrth iddi chwilio trwy ei nodiau, a'r rheiny heb fod yn drefn iawn yn aml! Atgofion melys iawn am Ogwen, gyda phawb yn cytuno, "Dim ond un Ogwen Adams oedd!"

Ein tro ni yn Castle Street, sydd bellach yn "Eglwys Gymraeg Canol Llundain" (wedi'r uno rhwng eglwysi Annibynnol King's Cross a Radnor Walk) yw i groesawu pawb i'r ddinas fawr.




*Llun – secretldn.com*

**Edrychwn ymlaen yn eiddgar at eich gweld, a gobeithiwn y bydd Undeb 2025 yr un mor llwyddiannus â'r rhai yn y gorffennol.**

# “Gadewch i’r plant bach ddod ata’ i...”

## Debs Stammer

Roedd yn bleser mawr i fi groesawu nifer ohonoch i Lannerch-y-medd, Ynys Môn ym mis Medi 2024 i gyfarfodydd blynyddol Mudiad y Chwiorydd. Os ydych yn cofio, thema y diwrnod oedd ‘Fel coeden a blanwyd ar lan dyfroedd’, yn seiliedig ar yr adnodau yn Jeremeia sydd yn galw arnom ni i hyderu yn yr Arglwydd.

Roeddwn wedi bod yn gweithio yn ‘Llan’ ers rhyw dair blynedd, yn dod i ’nabod pobl, adeiladu perthnasau, a gweddïo am sut roedd Duw ar waith yn y pentref. Fel rhan o fy ngwaith, roeddwn i’n mynd i mewn i’r ysgol gynradd bob yn ail wythnos i gynnal gwasanaeth, yn siarad gyda’r plant ac yn adrodd straeon am Iesu. Felly, roedd y plant wedi dod i fy ’nabod, ac roeddwn i’n dechrau teimlo fel rhan o’r gymuned, fel bod pobl yn dechrau fy nhrystio ychydig. Ond doedd y plant yn ddim ond môr o wynebau i mi; doedd yna ddim amser i ddod i’w ’nabod nhw. Doeddwn i ddim yn gwybod llawer amdanynt, am eu bywydau, eu gobeithion na'u brwydrau.

Un diwrnod yn gynnar yn 2024, fe wnes i ddeffro yn y nos gyda syniad. Y syniad oedd, i drio sefydlu clwb plant Cristnogol canol wythnos yn Llan. Er fy mod i’n hoffi plant ac yn mwynhau cyfrathebu gyda nhw, nid gwaith plant fel arfer yw fy mhrif 'alwad' yn fy marn i! Mae’n anodd, yn tydi, i ddirnad os yw rhywbeth yn ‘syniad da’ neu'n ‘syniad Duw’. Ond ar ôl cyfnod o weddïo, meddwl a siarad gyda phobl ddoeth, fe wnes i benderfynu symud ymlaen. Daeth yn amser i ymarfer yr hyn yr wyf yn ei bregethu, i ymddiried yn yr Arglwydd, ac i gamu allan mewn ffydd a gwneud rhywbeth newydd a llawn risg i Dduw.

Fe gymrodd tua blwyddyn i ni sefydlu’r clwb. Roeddwn i’n gobeithio cychwyn ym Mis Medi, ar ôl y gwyliau haf. Ond doedden ni ddim yn barod. Wedyn roeddwn i’n gobeithio cychwyn ar ôl hanner tymor… wedyn ar ôl y Nadolig… ond bob tro doedden ni ddim yn barod.

Roedd yna gymaint o waith papur, hyfforddiant, gwaith diogelu, pethau pwysig i drafod a chynllunio.

Partneriaeth oedd yn holl-bwysig. Rydym wedi bod yn gweithio yn agos gyda Andy a Rachel Hughes, gweithwyr plant Cristnogol profiadol o Llandderfel ger Bala. Mae'n nhw'n rhedeg sawl grŵp tebyg yn eu pentref nhw, felly roedd eu cyngor a'u profiad yn amrhisiadwy. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i Gymanfa Bedyddwyr Môn am ei chefnogaeth hi.

I mi, un o'r pethau mwyaf cyffrous sydd wedi digwydd yw gweld y tîm yn datblygu, a thyfu mewn undeb a hyder. Mae'n dîm aml-enwadol, yn cynnwys Bedyddwyr, Annibynwyr, Anglicaniaid, Efengylwyr Cymreig a Phentecostiaid. I ddechrau, yr unig beth oedd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin oedd... fi! Ond hefyd, roedden nhw'n caru'r pentref ac roedden nhw i gyd eisiau gweld plant Llannerch-y-medd yn dod i 'nabod Iesu. Erbyn hyn, rydym wedi dod i 'nabod ein gilydd, trystio ein gilydd, ac yn gweithio gyda'n gilydd yn dda iawn.

O'r diwedd, ar y 5ed o Fawrth, lansiwyd y clwb plant: "CIC Llan". Ar y posteri a thaflenni oedd wedi mynd allan, roeddwn i wedi gofyn i rieni gofrestru eu plant ymlaen llaw, i ni gael rhyw fath o syniad faint fasai'n troi fyny. Ond doedd neb wedi cofrestru. Roeddwn yn argyhoeddedig na fyddai neb yn dod! Hyd yn oed ar ôl yr holl broses o weddïo a dirnad a pharatoi, roeddwn yn ei ffeindio hi'n anodd i ymddiried yn Nuw. Ond mae Duw yn ffyddlon. Daeth deuddeg o blant ar y diwrnod cyntaf, a chawsom amser bendigedig yn chwarae gemau, yn gwneud crefftau ac yn siarad am Iesu gyda'n gilydd.

Mae o wedi bod yn hyfryd cael cyfle i ddod i 'nabod y plant yn well, a'u gweld nhw'n cymryd rhan a mwynhau'r clwb. Mae un bachgen bach wedi dod bob wythnos ac mae wrth ei fodd. Mae'n mynd â'r crefftau i'r ysgol drannoeth i ddangos i'w gyd-ddisgyblion a'i athrawon. Mae merch fach arall yn dweud y straeon wrth ei brawd bach pan fydd yn mynd adref. Bachgen arall sy'n dawel iawn, fel arfer ddim eisiau ymuno i ddechrau, ond erbyn y diwedd mae'n gwenu ac yn cymryd rhan gyda'r lleill.

I mi, mae wedi bod yn bleser treulio amser gyda'r plant hyn sydd fel arfer dim ond yn rhan o'r 'môr o wynebau' yn neuadd yr ysgol pan dwi'n gwneud gwasanaeth.

Rwyf wedi gallu dod i'w hadnabod nhw, darganfod mwy am eu bywydau, a'u helpu nhw, gobeithio, i ddeall bod Iesu'n eu caru nhw'n ddwfn ac yn dyheu iddyn nhw ei adnabod fel eu Harglwydd. Rwyf hefyd wedi dysgu, pan fyddaf yn camu allan mewn ffydd, y bydd Duw yn darparu ac yn fy helpu trwy'r holl frwydrau a heriau. Mae gyda mi bob cam o'r ffordd.

# Cerdd y Pasg

**Ioan 20 adnodau 30 & 31**

Cyn hir daw y Pasg i'n cynhesu
A'r deisien a'r siocled a'i flas,
Y wyau yn wyrth bywyd newydd
A'r gobaith am weld awyr las.

Wedi t'wyllwch holl fisoedd y gaeaf
Fe ddaw gwanwyn a golau yr haul
Fe ddaw lliw 'nôl a bywyd i'r gerddi
A blagur y blodau a'r dail.

Ond gardd arall ddaw i'n meddwl bob gwanwyn
lle bu dioddef a galar a phoen,
a'r gobaith am Frenin yn diffodd
ym marwolaeth ddieflig yr Oen.

Mab Duw a ddaeth yma i'n gwared
Yn marw ar groes Calfari
Dan hoelion yn dioddef am oriau,
Pam digwyddodd hyn oll meddwch chwi?

Bu yr Iesu'n darogan ei dynged,
Sut y byddai yn marw a ble
Daeth i ddioddef dros bechod dynoliaeth
Ac fe gariodd ein baich yn ein lle.

A dyma holl destun ein gobaith,
Y mae'n Arglwydd, Gwaredwr a Ffrind
Rhoes ei fywyd a'i gariad yn aberth
A thrwy hynny i'r Nefoedd cawn fynd.

*Betty Jones,  Capel Penybryn, Wrexham, Pasg 2025*

# Dorcas

## Ruth Davies, Tabernacl, Caerdydd

Yn y cysgod,
dydd ar ôl dydd
yn gwnïo.
Bysedd creithiog, crefftus
a  nodwyddau esgyrn-adar,
yn gweddnewid
darnau o ddefnydd yn ddillad;
clogyn a chrys-
dillad gwaith-
dim angen ceinder sidan
ar yr anghennus,
dim ond pwythau
o gariad a thosturi.
Gwnïo yw'r llinyn
Sy'n dal bywyd at ei gilydd
i Dorcas, y weddw, yn Joppa;
gofal am y tlodion
cyn dyddiau'r banciau dillad.
*Zohrah Evans, Tabernacl, Caerdydd*

Ar ôl darllen cerdd Zohrah, beth am i chi atgoffa eich hunain o hanes Dorcas sydd i'w gael yn Actau 9, adnodau 36 – 43. Roedd hi'n adnabyddus fel Cristion ac yn defnyddio ei dawn gwnïo i greu dillad a rhoi cymorth i dlodion a gweddwon yn Jopa. Roedd parch mawr iddi yn ei chymuned a'i dymuniad hi oedd i Dduw i ddefnyddio ei thalent mewn rhyw ffordd. Ffydd ymarferol oedd gan Dorcas.

Mae llawer o aelodau ein Mudiad yn gwau a gwnïo ac yn gwneud cymwynasau lu. Er nad yw hyn efallai yn wasanaeth cyhoeddus, mae Duw yn gallu ein defnyddio mewn gwahanol ffyrdd ac mae cyfrannu'n gyson at brosiectau elusennol y Mudiad yn un ohonynt. Cofiwch fod hynny yr un mor werthfawr yng ngolwg Duw, nid pawb sy'n gallu arwain addoliad ac ymgymryd â swyddi cyhoeddus

# Pryd a Ble?

1. Faint o'r gloch oedd hi pan gerddodd Iesu at ei ddisgyblion ar y tonnau, a ble roedden nhw?

2. Pryd a ble croeshoeliwyd Iesu meddai'r Efengylau Cyfolwg?

3. Eisteddodd Iesu am ei fod wedi blino fan yma. Faint o'r gloch oedd hi?

4. Ym mha fis y glaniodd Arch Noa ac ymhle?

5. Ble cerddodd Duw i alw ei ffrindiau Adda ac Efa? Pa amser oedd hi?

6. Pa bryd yr oedd y briodas yr aeth Iesu iddi ac ym mhle y cynhaliwyd hi?

7. Pa broffwyd gafodd weledigaeth yn y Deml, a phryd?

8. Aeth Pedr ac Ioan i fyny i rywle i weddïo. Ble a phryd?

9. Ble roedd Iesu yn cerdded yn Jeriwsalem a pha dymor o'r flwyddyn oedd hi?

10. Pa adeg o'r dydd y cerddodd Jiwdas allan wedi swper?

11. Pwy o ddisgyblion Ioan aeth i weld ble roedd Iesu'n aros a faint o'r gloch oedd hi?

12. Bu Moses ar y mynydd arbennig yn yr anialwch ac am sawl dydd?

13. Mae sôn yng Nghaniad Solomon am dymor o'r flwyddyn pan oedd rhyw adar arbennig yn canu. Pa dymor a pha adar?

14. Am sawl dydd wedi ei atgyfodiad yr ymddangosodd Iesu ac i bwy?

15. Daeth angel i ryddhau disgybl o rywle a pha amser o'r dydd oedd hi?

16. Pryd daeth yr angylion i ymweld â rhywun yn y babell ym Mamre. Faint o'r gloch oedd hi a phwy wnaeth bryd o fwyd iddynt?

17. Ar ba ddydd y crëwyd y borfa a'r ffrwythau? Beth oedd Duw yn eu feddwl am yr hyn a grëodd?

18. Gweithiodd Jacob i rywun am sawl blwyddyn er mwyn priodi ei ddwy ferch. Faint o flynyddoedd a beth oedd enwau'r merched?

19. Faint oedd oed Joshua yn marw a ble y claddwyd ef?

20. Sawl carreg gasglodd Eleias at ei gilydd ac ym mhle y cododd allor i Dduw?

## Atebion:

1. Ar Fôr Galilea, ym mhedwaredd wylfa'r nos, h.y. rhwng 3 a 6 y bore.

2. Ar Golgotha, Calfaria, Lle'r Benglog, am 9.00 y bore. (Bu farw am 3.00 y pnawn.)

3. Ar ymyl Ffynnon Jacob ger Sychar yn Samaria am hanner dydd.

4. Yn y seithfed mis ac ar fynydd Ararat.

5. Gardd Eden a chydag awel y dydd h.y. yn y bore cynnar neu'r hwyr wedi'r machlud

6. Ar y Trydydd dydd ac yng Nghana, Galilea.

7. Y proffwyd Eseia, ac yn y flwyddyn y bu farw'r Brenin Useia.

8. I'r Deml ar yr awr weddi sef y nawfed.

9. Yng Nghloestr Solomon yn y Deml a'r gaeaf oedd hi.

10.O'r Oruwch-ystafell wedi'r Swper Olaf ac roedd hi'n nos.

11.Ioan ac Andreas ac roedd hi yn bedwar y pnawn. (Y ddegfed awr oedd hi)

12. Mynydd Seinai am 40 diwrnod.

13. Y Gwanwyn a chân y Durtur. (Turtle Dove)

14. Am 40 niwrnod ac i'w ddisgyblion.

15 Rhyddhaodd yr angel Pedr o garchar Herod yn y nos.

16. Yng ngwres y dydd ac Abraham a Sarah oedd y ddau westai.

17. Ar y Trydydd dydd ac roedd Duw yn meddwl bod y cyfan yn dda.

18. I Laban (brawd ei fam) am Leah a Rahel – 7 mlynedd yr un.

19. Roedd yn 110 oed ac fe'i claddwyd yn Timnath Serah yn nhir Effraim.

20. 12 carreg, un am bob llwyth yn Israel ac fe adeiladodd yr allor ar ben Mynydd Carmel.

# Gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol Mudiad y Chwiorydd

### Gret Evans

Bydd drysau Capel Bedyddwyr Star, Clydau, Llanfyrnach, Sir Benfro, SA35 0AR ar agor dydd Iau 25 Medi 2025. A bydd croeso twymgalon yn eich disgwyl i Gyfarfod Blynyddol Mudiad y Chwiorydd.

Bydd oedfa prynhawn am 2.00, te i ddilyn ac oedfa 5.30.

Bydd Côr Merched Bro Nest yn canu yn oedfa 5.30. A Iestyn Evans, Llundain, yn cyfeilio i'r ddwy oedfa ac yn ychwanegu at y gerddoriaeth.

Dechreuodd achos Capel Star yn 1829 a'r cyfarfodydd mewn cartref sef Troedyrhiw, Ship Cottage fel y gelwid heddiw. Dywedir i'r Parch David Woolcock, Cwmfelin, gael breuddwyd noson cyn iddo fynd i gwrdd paratoad yn Star.

Breuddwydiodd ei fod yn teithio heibio fferm Nantiwan Fawr a gweld seren gynffon yn syrthio, a sefyll ar graig. Wedi meddwl am y freuddwyd, penderfynwyd ofyn i berchennog y tir werthu'r safle i gael codi Tŷ Cwrdd i Dduw. Prynwyd y tir ar 1af Ionawr 1830. Yno saif y Festri heddiw. Yn 1831 symudwyd o Troedyrhiw i'r cysegr newydd.

Saith cenhedlaeth yn ôl bu fy nheulu ym mysg y ffyddloniaid yn cario cerrig i adeiladu y Capel presennol, a agorwyd yn 1879. Mae yr achos a'r Capel yn agos i'm calon. Yma cefais fy Ysgol Sul yng ngofal Mr a Mrs Tom Beynon. Cefais fy medyddio yma gan yr annwyl Barchedig W. J. Gruffydd. Ef hefyd a briododd Islwyn a minnau yn 1973.

Er nad oes gennym fugail drosom yn y Star ar hyn o bryd, mae yma aelodau a ffrindiau gweithgar a brwdfrydig yn cario ymlaen â'r gwaith.

Bydd yn hyfryd cael eich croesawu i'n cartref ysbrydol yma yn y Star.



**Manylion y Cyfarfodydd**

**Dyddiad: Dydd IAU, 25 Medi 2025**

Amserlen:
2.00yp: Cyfarfod y Prynhawn
4.00yp: Te prynhawn
5.30yp: Oedfa'r Hwyr

Lleoliad: Capel Bedyddwyr Star, Clydau, Llanfyrnach,
Sir Benfro, SA35 0AR.

I archebu tocyn te, plis, cysylltwch â fi cyn 31 Gorffennaf 2025, ar 01239841588, neu

*Ebost islwynevans@btinternet.com.*

Cost y te fydd £12.50.

# Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru yn Newid Safle

Bu staff yr Undeb wrthi'n symud archifau ac eiddo'r Undeb draw i'w swyddfa newydd ym Mharc Dewi Sant yn ystod wythnos y 7fed i'r 11eg Ebrill. Cyfeiriad newydd UBC yw:

***Undeb Bedyddwyr Cymru,***
***Adeilad 2 Parc Dewi Sant,***
***Heol Ffynnon Job,***
***Caerfyrddin,***
***SA31 3HB***

A wnewch chi wneud nodyn o'r cyfeiriad newydd yn y mannau priodol os gwelwch yn dda ar gyfer pob gohebiaeth o hyn ymlaen - a plïs galwch i mewn i'w gweld unrhyw bryd.

Cofion,

Bonni

(Mrs Bonni Davies)

Cynorthwy-ydd Personol / Personal Assistant

*bonni@ubc.cymru*

Ffôn / Tel 0345 2221514

**Gweddi Teressa o Afila**

Peidiwch â gadael i ddim eich cynhyrfu. Peidiwch â gadael i ddim beri ofn i chi. Mae popeth yn pasio heibio ond d'yw Duw byth yn newid. Mae amynedd yn llwyddo bob amser. Pwy bynnag sydd â Duw fyddan nhw fyth mewn angen, Mae Duw yn unig yn ddigon.

# Cynhadledd
# Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop 2024

**Gret Evans**

Ym mis Hydref 2024 teithiodd chwedeg o ferched o un gwlad ar hugain dros Ewrop, y Dwyrain Canol a chanol Asia i Bortiwgal i gynhadledd Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop.

Pob un yn frwdfrydig dros waith yr Arglwydd Iesu.

Dyma'r tro cyntaf i fi ymuno yn y gynhadledd. Braf oedd cael cwmni Eleri Jones. Dwy Gymraes yn cynrychioli Cymru. Daeth Islwyn, fy ngŵr, gyda fi hefyd yn gwmni. Teithio o Gatwick wnaethom ni ac Eleri o Fryste.

Llywydd y gynhadledd oedd Siham Daond, wedi teithio o wlad rhyfel Lebanon.'Roedd Nadia wedi teithio o ddwyrain Wcrain. Merch arall o Uzbekistan, nid oedd am gael ei henwi gan ei bod yn cael ei herlid gan y KGB am ei gwaith gyda ieuenctid.

Thema y Gynhadledd oedd "Living in Victory".





Galwyd rhestr o'r cynrychiolwyr. Nifer ohonom wedi gwisgo gwisg genedlaethol. Cawsom gyfle i gyfarch yn ein mamiaith.

Roeddem yn cymdeithasu ac addoli yn enw'r Arglwydd. Cyd-ganu, gweddïo bob bore a hwyr. Y siaradwraig wâdd oedd Grace Fox o America, wedi gwasanaethu gyda'i gŵr yn Nepal. Eglurodd enwau arall ar Dduw sef Yahweh, Tzidkenu, Rohi, Yireh, Tzevot, Shammah ac El Elyon.

Cawsom gyfle i wneud gwaith llaw a gwnïo traddodiadol. Eleri a minnau yn canolbwyntio.

Buom yn cydweithio mewn cwis Beiblaidd, a chyfle i actio storïau o'r Beibl.  Wedyn taith prynhawn Sadwrn i Cascais a Lisbon.

Roedd rhai o'r merched o wledydd canol Ewrop yn falch iawn i gael gweld y môr a'r tonnau gwyllt am y tro cyntaf.

Nôl i'r gwesty wedyn, cymdeithasu a blasu bwyd traddodiadol Portiwgal a'r bwrdd yn llawn danteithion. Noson olaf o gymdeithasu gyda'n gilydd, ac adloniant Portiwgal. Rhaid oedd i Eleri, Islwyn a minnau gael llun ar y noson olaf.

Bore Sul, cerdded milltir i wasanaeth yn Eglwys Igreja Baptista de Tires yn S.Domingos de Rana. Gweddïo, darllen a chanu clod i'n Harglwydd.

Yna, wedi Cinio, ffarwelio â'n ffrindiau newydd.

Beth oedd ymateb Islwyn? "Rwyf yn falch fy mod wedi dod gyda ti i gyfarfod merched hyfryd, serchog, cymdogol yn gweithio dros ein Harglwydd Iesu"

Pob bendith iddynt oll yn y gwaith.





## <u>Gweddi Julian o Norwich</u>

Bydd popeth yn dda, bydd popeth yn dda, bydd pob math o bopeth yn dda.

# Cyfarfodydd Blynyddol y Mudiad yn Nhabernacl Llannerch-y-medd, 11 Medi 2024

**Bonni Davies, Ysgrifennydd y Mudiad.**

Braf iawn oedd cael croesi'r bont a theithio nôl i Ynys Môn unwaith yn rhagor ar gyfer cyfarfodydd blynyddol 2024. Ymwelwyd â'r ynys nifer o weithiau oddi ar ddechreuadau'r Mudiad yn 1944. Fe'u croesawyd i Benuel Llangefni yn 1976, gyda'r ddiweddar chwaer Elen Edwards yn cael ei hurddo i'r llywyddiaeth; ac i Hebron Caergybi yn 1983 i urddo'r ddiweddar chwaer Rosemary Thomas. Ni nodwyd ym Meibl y Llywydd ym mhle camodd y ddiweddar Glynwen Jones i'r llywyddiaeth yn 1990 gan ei fod ond yn dweud 'Môn'. Yn 2006 tyrrwyd i Dabernacl Bodedern i urddo'r chwaer Eiluned Ann Thomas; ac yna yn 2013 teithiwyd i Gilead Belan i anrhydeddu'r ddiweddar chwaer Catherine Jones i'r llywyddiaeth. Hi lywyddodd Oedfa'r Dathlu pan gyrhaeddodd y Mudiad 70 mlwydd oed yn 2014.

Unarddeg mlynedd yn ddiweddarach gwelwyd pawb yn ymgynnull yn Nhabernacl Llannerch-y-medd, lle roedd croeso twymgalon iawn yn ein disgwyl er mwyn anrhydeddu'r Parchedig Deb Stammers, gweinidog cynorthwyol ac Ysgogydd Cenhadol yr ynys.

**Oedfa'r Prynhawn**

Llywydd presennol y Mudiad, y Parchg Sian Elin Thomas, gweinidog Eglwysi Bro Cemaes Dyffryn Teifi, oedd yn gyfrifol am lywyddu oedfa'r prynhawn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan ddwy chwaer leol: Mary Owens yn darllen, ac Eleri Jones yn gweddio; cyn i'r Parchedig Ieuan Elfryn Jones estyn croeso cynnes i chwiorydd Cymru i'r ynys unwaith eto. Wedi canu 'Emyn y Mudiad' i gyfeiliant Natalie Morgan ar yr organ, a derbyn yr offrwm gan gyfeillion yr ofalaeth, cyflwynwyd adroddiad yr ysgrifennydd gan Bonni Davies; adroddiad y trysorydd gan Hazel William Jones; ac adroddiad Glyn Nest ar ran Mair Roberts, ysgrifennydd y Pwyllgor Tŷ; cyn symud ymlaen i Seremoni Urddo'r Llywydd newydd.

Gan i'r ddwy fod yn gyd fyfyrwyr yng Ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd, cyflwynwyd y Parchedig Deb Stammers gan y Parchedig

Sian Elin Thomas, y llywydd presennol. Yna, gyda'r gynulleidfa ar ei thraed ac yn canu "Dyma Feibl Annwyl Iesu", arwyddodd y llywydd newydd Feibl y Mudiad ac arwisgwyd hi gan Sian Elin â Thlws Nanette, sef cadwyn arian y Mudiad o waith y gemydd *Rhiannon.* Offrymwyd gweddi'r urddo gan y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru.

Cyflwyno Gret Evans, Is-lywydd y Mudiad, oedd y dasg nesaf ond yn anffodus, ni lwyddodd Maureen Rees, aelod a diacon ffyddlon yng nghapel y Star, fod yn bresennol yn yr oedfa ar y funud olaf, ac felly darllenwyd cyfarchion a cherdd ar ei rhan gan ysgrifennydd y Mudiad. Ymatebodd Gret drwy estyn croeso cynnes i bawb nôl i gefn gwlad Sir Benfro y flwyddyn wedyn, i eglwys y Star. Darllenwyd cyfarchion cynnes ganddi wedyn i'r llywydd newydd ar ran Misha Pedersen ac Elsa Harflett, llywyddion cyfredol Senana Cymru.

Cyn canu'r emyn nesaf, cyflwynwyd eitem arbennig iawn gan grŵp bach o ferched, sef Sian Elin, Debs, Hannah, Menna a Lowri; gyda Natalie wrth yr organ. Swynwyd pawb gan y gân "Bendigedig i'r Sawl sy'n Hyderu yn yr Arglwydd", sef cân a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur, gan ŵr y llywydd, Jon Stammers.

Dewisodd y llywydd newydd "Fel Coeden a Blannwyd ar Lan Dyfroedd" fel thema ar gyfer y ddwy oedfa a hynny am i'r Arglwydd, yn Jeremeia 17:8, gymharu'r gŵr a oedd ganddo hyder yn yr Arglwydd i bren a blannwyd ar lan dyfroedd a'i alw'n fendigedig. Yn ei hanerchiad cafwyd ganddi ddigon o dystiolaeth i wybod bod ganddi hithau, heb os, ymddiriedolaeth lwyr a dwfn yn Nuw. Daeth oedfa hyfryd a bendithiol i glo wrth i'r Parchg Judith Morris gyhoeddi'r fendith ac offrymu gras cyn bwyd.

Aeth pawb o'r oedfa wedyn i gyfeiriad Caffi'r Stesion lle roedd gwledd o fwyd a chroeso mawr yn eu haros. Hyfryd iawn oedd y gymdeithas o amgylch y byrddau rhwng y ddwy oedfa.

**Oedfa'r hwyr**

O dan lywyddiaeth Deb Stammers, y llywydd newydd, parhawyd gyda'r thema "Ymddiried yn yr Arglwydd" yn oedfa'r hwyr. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Meleri Roberts a Alwena Jones a chyflwynwyd eitem lafar gan Mai Owen, sef cerdd addas iawn a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr oedfa gan Menna Machreth Llwyd. Yn wir, roedd pob emyn, darlleniad a gweddi yn addas iawn i'r thema, a llawer o feddwl wedi mynd mewn i gynllunio'r diwrnod ar ei hyd.

O dan y pennawd “Ymddiried yn Nuw” cyfwelwyd â dau berson ifanc, sef Rachel Radbourne o Gapel Goleudy, Llangefni; a Hannah Smethurst, Capel Caersalem Caernarfon. Soniodd y ddwy am eu profiadau personol o wybod am ffyddlondeb Duw mewn adegau anodd a’r pwysigrwydd i bawb ohonom ymddiried yn gyfangwbl ynddo Ef ym mhob achlysur. Daeth y cyflwyniad i ben mewn gweddi ddwys gan y llywydd newydd.

Cyn yr emyn olaf, diolchodd yr is-lywydd Gret Evans ar ran pawb am oedfaon hyfryd a bendithiol ac am yr holl waith a’r croeso twym-galon.

Daeth oedfa fendithiol, llawn o bresenoldeb Duw, i ben trwy weddi gan lywydd newydd y Mudiad, y Parchg Deb Stammers. Nid ar chwarae bach y trefnir cyfarfodydd fel hyn ac felly diolch o waelod calon i Debs a’i thîm o weithwyr am yr holl drefniadau ar gyfer cyfarfodydd i’w cofio.



**Eitem gerddorol yn Oedfa’r Prynhawn gan grŵp bach o ferched, sef Sian Elin, Debs, Hannah, Menna a Lowri.**

**I’r dde: Arwyddo Beibl y Mudiad gan y Llywydd newydd gyda Judith a Sian Elin yn dystion.**





**I’r chwith: y merched hawddgar a gymerodd ran yn Oedfa’r Hwyr.**

# Atgyfodiad

## Edward Jones Traeth Coch, Sir Fôn

**A** – sydd am ABERTH – Y Pasg ydoedd hi.

**T** – am y TEITL ar bren Calfari.

**G** – am y GROES a'r dioddefaint i gyd.

**Y** – YR UN oedd yn berffaith dros bechod y byd.

**F** – sydd am FORE – y Trydydd oedd hwn.

**O** – Am OEN Duw a gariodd ein pwn.

**D** – sydd am DORRIAD Y WAWR wedi'r hwyr,

**I** – am yr IAWN a dalwyd yn llwyr.

**A** – am AROGLAU a'r persawr, Mae'n Fyw!

**D** – am ei DAD garodd holl ddynolryw.

A dyna yw ystyr y PASG – fel erioed.
Mae Duw yn ein caru, ei anrheg a roed.

## Gweddi Milwr yn y rhyfel Cartref

Arglwydd, fe wyddost ti pa mor brysur fyddai Heddiw, Os byddai'n dy anghofio Di, paid Di â'm hanghofio i.

# Colofn Cwcan

## Yr Heol Greigiog

## (Binc)

300 gram Siocled Bournville

140 gram Digestives

12 o Marshmallows pinc

2 far o Turkish Delight

Toddwch y siocled mewn bowlen uwch sosbanaid o ddŵr berw

Torrwch y digetives yn ddarnau bach – heb eu briwsioni

Torrwch y marshmallows gyda siswrn yn hanneri neu chwarteri

Torrwch y ddau Turkish Delight yn sgwarau man

Ychwanegwch bopeth ar y siocled sydd wedi toddi

Tun bach sgwar 6”x 6” modfedd a rhowch bapur menyn ar ei waelod a’i iro’n dda gyda menyn

Tywalltwch y gymysgedd siocled iddo a’i wastadu’n weddol

Rhowch yn y ffrij i galedu am gwpwl o oriau cyn ei dorri’n sgwariau

Peidiwch mynd ar gyfyl y dafol bwyso am tua mis!



*Llun: Thermobliss.com*



# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

**Cyfarfodydd Blynyddol 2024** - Aeth wyth mis heibio ers cyfarfod gyda'n gilydd yn Llannerchymedd ar gyfer ein cyfarfod blynyddol er mwyn dyrchafu'r Parchg Deb Stammers yn llywydd a Gret Evans yn is-lywydd y Mudiad. Ceir yr hanes yn llawn yn y rhifyn hwn.

**Cynhadledd Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop 2024** – Bu cryn lawenhau fis Hydref llynedd wrth i Fudiad y Chwiorydd gael cynrychiolaeth yng nghynhadledd Ewrop am y tro cyntaf oddi ar 2008. Llawenydd ychwanegol felly oedd bod cynrychiolaeth wedi mynychu unwaith eto yn 2024. Diolchir o galon i Gret Evans ac Eleri Lloyd Jones am gynrychioli'r Mudiad yn Lisbon ac i Undeb Bedyddwyr Cymru am gynnig nawdd eleni eto. Gwelir yr hanes yn y rhifyn hwn.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd** – Yn ôl yr arfer, lai na mis yn ddiweddarach, ar y Llun cyntaf yn Nhachwedd, cafodd chwiorydd Bedyddiedig Cymru y cyfle i uno mewn gweddi gyda chwiorydd o Fedyddwyr ar draws y byd. "Bywyd Bwriadol" oedd y thema eleni a seliwyd ar yr adnod o Lythyr Paul at y Rhufeiniaid. Diolchir i'r chwaer Ruth Davies, Tabernacl Caerdydd am addasu a chyfieithu'r oedfa mor gelfydd ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Diolchir hefyd i bawb a ddaeth ynghyd i gynnal oedfa mewn gwahanol ardaloedd gyda'r canlyniad i £547.50 o gasgliad gael ei anfon ar gyfer prosiectau ar draws y byd. Diolch o galon i Elen Lansdown, o eglwys Emaus Bangor, am gytuno i wneud y gwaith o addasu eleni, a bydd copi Saesneg yn cael ei anfon ati yn syth pan ddaw.

**Aelodaeth o'r Mudiad** - Bydd ffurflenni ymuno â Mudiad y Chwiorydd yn cael eu hanfon allan ddechrau'r flwyddyn ac eleni fe'u hanfonwyd allan gan ein trysorydd, Hazel Williams Jones. Diolch iddi am ysgafnhau baich yr ysgrifennydd. Diolch hefyd i bawb a ymaelododd gan barhau i fod yn ffyddlon ac sy'n parhau i gadw cysylltiad drwy'r Cwlwm a'r Dydd Gweddi ac yn wir a fydd yn derbyn pob gwybodaeth ar hyd y flwyddyn.

**Pwyllgorau 2025** – Cyfarfod dros y wê yn yr hwyr fu hanes y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth eleni eto gan roi gwell cyfle i reini sy'n gweithio. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a gynhelir am 1.30yp ar 3ydd Gorffennaf, yn cael ei gynnal eleni eto yn Neuadd Pantyfedwen Aberystwyth gan roi'r dewis o ymgynnull wyneb yn wyneb neu ar y wê.

**Mai a Mehefin** – Cyn hynny fe fydd llawer o'r aelodau wedi ymuno yng nghapel Bethania Aberteifi ddechrau Mai i Gyfarfod Blynyddol y Senana, lle bydd ein llywydd, y Parchg Deb Stammers yn dwyn cyfarchion ar ran y Mudiad. Bydd cyfle i glywed llais y Mudiad hefyd yng nghynhadledd Undeb Berdyddwyr Cymru yn Llundain ar 18fed a'r 19eg Mehefin pan fydd Gret ac Eleri yn adrodd hanes eu hymweliad â Lisbon, Sian Elin yn dwyn hanes Glyn Nest a chyfraniad hefyd gan ein llywydd cyfredol.

**Cyfarfodydd Blynyddol y Cymanfaoedd** – Daeth yn amser ail-ethol cynrychiolwyr o bob Cymanfa i Bwyllgor Cyffredinol y Mudiad a fydd yn cyfarfod unwaith y flwyddyn ym mis Gorffennaf. Ysgrifennwyd at bob ysgrifennydd Cymanfa a gobeithir cael atebion erbyn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol.

**Glyn Nest** – Dydd Mercher olaf Awst yw dyddiad arferol Dydd Agored Glyn Nest ac mae hwnnw'n disgyn eleni ar Awst 27ain. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron nawr! Edrychir ymlaen yn eiddgar at groesawu pawb yno o bob rhan o Gymru ac fe fydd ein llywydd unwaith eto'n dwyn cyfarchion ar ein rhan. Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Mudiad a Glyn Nest a bydd yn ceisio cefnogi cymaint ag y bo modd. Penderfynodd y Pwyllgor Cyffredinol gyflwyno £1,000 o rodd eleni eto.

**Gwau a gwnïo** - Atgoffir pawb bod yr ymgyrchoedd yn parhau ac estynnir diolchgarwch mawr i bawb a fu wrthi'n ddiwyd ar hyd y flwyddyn. Soniwyd yn rhifyn Medi llynedd am Catherine Moon oedd yn cymryd y deunydd ar gyfer Prosiect Linus ond yn anffodus bu Catherine farw ddiwedd y flwyddyn. Bellach Jenny Jenkins o Aberystwyth – un sydd yn gwneud ymweliadau mynych â gwlad Wcrain – fydd yn eu cymryd. Mae'n ddiolchgar iawn am bob rhodd, felly daliwch ati i wau neu wnio!

**Cwlwm** - Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddau rifyn fydd yn dod allan bob blwyddyn. Diolch arbennig iawn i'r Golygydd Einir Jones am ei gwaith a'i brwdfrydedd, i bawb sy'n gyfrifol am eu dosbarthu ar draws Cymru, ac i Gwen o swyddfa'r Undeb am eu hargraffu. Mae Einir wedi dweud mai rhifyn mis Medi 2025 fydd ei rhifyn olaf un, ac felly rydym yn chwilio, os gwelwch yn dda, am wirfoddolwraig i gymryd at y rôl olygyddol hon. Neu, os ydych yn gwybod am rywun sy'n 'gliper' am y math hyn o beth, plîs cysylltwch.

**Cyfarfod Blynyddol 2025** – Daw'r adroddiad i ben fel y dechreuodd, gyda chyfarfodydd Blynyddol y Mudiad. Cynhelir y cyfarfodydd eleni yng nghapel y Star, Sir Benfro, SA35 0AR, am 2.00yp a 5.30 yp ar **ddydd IAU**, **25ain Medi** (sylwer ar y dyddiad hwyrach na'r arfer). Bydd te prynhawn yn cael ei baratoi rhwng y ddau gyfarfod. Pob dymuniad da i'r chwaer Gret Evans wrth iddi gamu i'r llywyddiaeth, ac i'r chwaer Lis Puw, Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion, a fydd yn camu i'r is-lywyddiaeth. Diolchir yn arbennig i'r Parchg Deb Stammers am arwain y Mudiad yn fedrus ar hyd y flwyddyn.

## Gweddi Aaron

Bydded i'r Arglwydd eich bendithio a'ch cadw. Bydded i'r Arglwydd dywynnu disgleirdeb ei wyneb arnoch a bod yn drugarog wrthych. Boed i'r Arglwydd droi ei olygon arnoch a rhoi i chwi dangnefedd.

Numeri 6, 24-26

# Cynhadledd Lisboa

## Eleri Lloyd Jones

Roedd hi'n fraint unwaith eto mynychu cynhadledd flynyddol Chwiorydd Bedyddiedig Ewrop Ynghyd (EBWU) a hynny yn Lisboa [*Lisbon*], Portiwgal, y tro hwn. Braf oedd cyfarch rhai o'r gwragedd roeddwn wedi cwrdd â nhw yn Riga y flwyddyn cynt, a chwrdd ag gwragedd eraill am y tro cyntaf. Roeddwn yn falch hefyd o gwmni Gret ac Islwyn, o Sir Benfro.

Cawsom groeso cynnes a hael gan chwiorydd hawddgar Mudiad Chwiorydd Portiwgal. Cynhaliwyd y gynhadledd mewn hen goleg diwinyddol Pabyddol wedi ei droi yn ganolfan cynhadledd mewn tre-flan ychydig filltiroedd o ganol Lisboa ei hun. Er nad yn lle moethus roedd yn lân a chymen a'r bwyd yn flasus a maethlon.

Thema'r cyfarfod oedd "Byw yn Fuddugoliaethus", yn seiliedig ar eiriau Paul yn Corinthiaid 15. Fel y tro blaen 'roedd y rhaglen yn llawn o weithgareddau gan gynnwys defosiwn, astudiaeth Feiblaidd gyda Grace Fox o Ganada, gweithdai ymarferol a sesiynau mwy ysgafn gyda'r nos. Er mai Saesneg oedd prif iaith y gynhadledd (am resymau ymarferol) roedd digon o gyfle i glywed y gwragedd yn siarad (a gweddïo!) yn eu mamiaith. Fel yn Riga cefais fy ysbrydoli wrth glywed hanesion rhai sy'n byw mewn amgylchiadau anodd ond yn parhau i fod yn ddisgyblion ffyddlon i Grist, fel y wraig o Uzbeki-stan a'r gwragedd o Iwcrain.

Yn arbennig, roeddwn yn falch o weld ein Llywydd annwyl, Siham Daod, wedi cyrraedd yn ddiogel o Libanus. Dim ond dwy ohonynt oedd wedi llwyddo cael caniatâd i ddod i Lisboa ac 'roeddent yn dychwelyd adref yn syth ar ôl y gynhadledd. Felly fe wnaethom ni i gyd casglu mewn cylch o gwmpas y ddwy ar ddiwedd y gynhadledd i weddïo ar Dduw i'w cadw yn ddiogel yng nghanol y rhyfel. Bendith Duw arni hi a phawb arall yn yr un argyfwng.



**UCHOD: Lleoliad y Gynhadledd – Centro de Acolhimento Seminário Torres Dáquilla**

**Isod o'r chwith i'r dde: fi, Melita o Serbia, Jenny o Loegr a Siham Daod, Libanus**



# Preswylwyr Glyn Nest yn Mwynhau Gweithgareddau'r Pasg

Bydd Catrin Rotie, y Swyddog Adloniant, yn creu calendr o amrywiol ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer preswylwyr Glyn Nest bob mis heb ffael. Ymysg gweithgareddau mis Ebrill daeth Llinos Twigg yno i drefnu blodau, ac fe gafwyd cystadleuaeth addurno hetiau Pasg. Diolch i Catrin, ac i Nia Dunseath y rheolwr swyddfa, am anfon y lluniau hyn sy'n dweud y cyfan am y mwynhad a gafwyd.






















